National Deaf Children's Society

# Safonau ansawdd

## Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar mewn ysgolion prif ffrwd

**I weithwyr proffesiynol**



NatSIP
National Sensory Impairment Partnership

# Safonau ansawdd: Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar mewn ysgolion prif ffrwd
**Diweddерir: 2020**

## Cynnwys


Cydnabyddiadau

**Rhan 1: Cyflwyniad**
Bwriad y safonau ansawdd
Bwriad darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar
Disgrifiad byr o ddarpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar

**Rhan 2: Y safonau ansawdd**

**Sicrhau cynhwysiant ac addysgu a dysgu effeithiol**
SA01 Y cwricwlwm
SA02 Addysgu a dysgu
SA03 Amgylchedd dysgu cynhwysol

**Canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar**
SA04 Datblygiad, cyrhaeddiad a disgwyliadau addysgol
SA05 Cymryd cyfrifoldeb a gwneud cyfraniad cadarnhaol
SA06 Cadw a theimlo yn ddiogel
SA07 Lles cymdeithasol ac emosiynol
SA08 Cyrchfannau ar ôl gadael yr ysgol

**Arweiniad a rheolaeth**
SA09 Gweledigaeth a chynllunio
SA10 Rheolaeth ariannol
SA11 Staffio
SA12 Defnyddio technoleg
SA13 Cytundeb lefel gwasanaeth

**Cyfranogaeth a gweithio mewn partneriaeth**
SA14 Partneriaeth â rhieni plant a phobl ifanc byddar
SA15 Cynnwys plant a phobl ifanc byddar
SA16 Gwaith aml asiantaeth

**Rhan 3: Hunanwerthuso**

**Casglu data a thystiolaeth**

**Geirfa**

## Cydnabyddiadau

Datblygwyd a diweddarwyd y safonau ansawdd hyn gan y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar a'r Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau mewn cydweithrediad agos â phenaethiaid gwasanaethau, penaethiaid darpariaethau adnoddau, Athrawon Plant Byddar Cymwysedig ac arbenigwyr ym maes addysg fyddar eraill ledled y DU.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i gynnig adborth ar y safonau ansawdd.

Rydym yn parhau i groesawu adborth parhaus sy’n ein helpu ni sicrhau bod yr adnoddau hyn mor ddefnyddiol a chywir â phosib. Os oes unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gennych ynglŷn â’r safonau ansawdd hyn, anfonwch e-bost atom i professionals@ndcs.org.uk.

## Rhan 1: Cyflwyniad

Defnyddir y term 'byddar' i gyfeirio at bob math o fyddardod, o fân i lwyr. Mae hyn yn cynnwys byddardod mewn un glust neu fyddardod dros dro fel clust ludiog.

### Bwriad y safonau ansawdd

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r safonau ar gyfer gweithrediad darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y DU. Ei fwriad yw gwella canlyniadau ar gyfer disgyblion byddar trwy ddarparu fframwaith sydd yn:

- helpu ysgolion (yn cynnwys academïau ac ysgolion rhydd yn Lloegr) ac awdurdodau lleol i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg a gynigir i blant a phobl ifanc byddar
- llywio datblygiad polisïau a chynlluniau ysgolion
- cefnogi datblygiad ac adolygiad cytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr awdurdod lleol (neu'r Awdurdod Addysg yng Ngogledd Iwerddon), a'r ysgol sy'n cynnal y ddarpariaeth adnoddau
- hybu ymarfer da a'r defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Gellir rhoi'r safonau ar waith ledled y DU ac fe'u hysgrifennir gyda chyfeiriad at gyfarwyddyd, fframweithiau gwerthuso a safonau arolygu sydd ar waith ym mhob un o'r pedair gwlad.

### Bwriad darpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar

Wrth asesu ansawdd darpariaethau adnoddau mae'n bwysig i fod yn glir am eu bwriad. Dylai darpariaeth adnoddau ddarparu cymorth **arbenigol** ar gyfer staff ysgol a phlant a phobl ifanc byddar ar gofrestr yr ysgol a'u rhieni, gyda'r bwriad o sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar:

- yn gwneud cynnydd addysgol da ac yn lleihau neu gau unrhyw fwlch cyrhaeddiad a bodolodd rhyngddynt a'u cyd-ddisgyblion wrth ddechrau'r ysgol
- yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol
- â chyfoedion byddar ac yn magu ymdeimlad o hunaniaeth fyddar
- yn symud ymlaen at ysgol newydd, addysg bellach neu waith yn llwyddiannus.

Mewn rhai achosion ehangir bwriad y ddarpariaeth adnoddau i ddarparu gwasanaethau allgymorth/peripatetig i blant mewn ysgolion eraill. Cynhwysir gwaith allgymorth o fewn safonau ansawdd eraill a gyhoeddir gan y Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau, sydd ar gael yn: www.natsip.org.uk/doc-library-login/quality-improvement-for-services.

### Disgrifiad byr o ddarpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar

Mae amrywiaeth o ddarpariaethau adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar ledled y DU ac mae ganddynt sawl enw gwahanol. Er enghraifft, gellir hefyd eu galw'n:

- darpariaethau dynodedig
- canolfannau adnoddau
- canolfannau byddar
- canolfannau ar gyfer plant byddar a phlant â nam ar eu clyw
- canolfannau cymorth byddar

Mae darpariaeth adnoddau yn darparu ar gyfer anghenion plant byddar yn benodol fel rhan annatod ac arbenigol o ysgol prif ffrwd.  Mae ystod o staff arbenigol yn darparu cymorth ac yn sicrhau y caiff anghenion disgyblion byddar eu diwallu'n llawn fel rhan o fywyd bob dydd yr ysgol.

Dylai athrawon mewn darpariaethau adnoddau fod, neu fod o dan hyfforddiant i ddod yn Athrawon Plant Byddar Cymwysedig. Dylai cynorthwywyr addysgu, gweithwyr cymorth cyfathrebu a hyfforddwyr byddar wedi derbyn hyfforddiant penodol ac wedi datblygu sgiliau arbenigol mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc byddar.  Bydd ymarferwyr arbenigol eraill, fel awdiolegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith, wedi'u cysylltu'n agos gyda'r ddarpariaeth adnoddau.

Mae offeryn hunanwerthuso yn cyd-fynd â'r safonau ansawdd hyn a gellir ei lawrlwytho yn: www.ndcs.org.uk/SARPs. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael yn Gymraeg.

# Rhan 2: Y safonau ansawdd

## Sicrhau cynhwysiant ac addysgu a dysgu effeithiol

### AS01 Y cwricwlwm

Mae’r ddarpariaeth adnoddau yn cynnig cymorth effeithiol i athrawon prif ffrwd er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn:

- hygyrch i blant a phobl ifanc byddar ar draws yr ystod lawn o bynciau a gweithgareddau
- wedi'i gwahaniaethu i gwrdd ag anghenion unigol plant a phobl ifanc byddar.

Anghenion:

- Mae Athrawon Plant Byddar Cymwysedig ac athrawon prif ffrwd yn cwrdd, cynllunio a thrafod anghenion y disgybl byddar, ei gynnydd, ei arddull dysgu a sut i wneud unrhyw newidiadau i’r cwricwlwm er mwyn cwrdd ag anghenion y disgybl byddar.

- Mae’r Athro Plant Byddar Cymwysedig yn cynghori athrawon prif ffrwd am y wahanol fathau a lefelau o gymorth sydd angen ar y disgybl i gael mynediad at wahanol agweddau'r cwricwlwm fel bod y cymorth yn addas i'r wers sy’n cael ei dysgu.

- Cynigir cymorth i sicrhau bod mynediad ieithol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn adlewyrchu eu dewis iaith a dull cyfathrebu, a all newid ar gyfer gwahanol rannau o'r cwricwlwm. Er enghraifft, dysgu Iaith Arwyddion Prydain neu Wyddeleg, neu Saesneg â Chymorth Arwyddion fel rhan o'r cwricwlwm ar gyfer y rheini sydd ei angen neu ddarparu cymorth i ddatblygu dulliau clybodol-llafar.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn teimlo bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer eu hanghenion ac yn ddigon heriol ac ysgogol. Maent yn deall bwriad gweithgareddau dysgu a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni'r amcanion.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn holl weithgareddau estynedig yr ysgol ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn gymdeithasol. Dylai hyn gynnwys trefnu cludiant ychwanegol a chymorth cyfathrebu lle bo'u hangen.

- Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gwasanaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar a grwpiau gwirfoddol lleol, a fydd yn galluogi'r plant a phobl ifanc byddar i fynychu gweithgareddau yn ystod y gwyliau neu ar ôl ysgol.

- Mae yna systemau cofnodi a thracio ar waith sy’n cael eu rhannu rhwng staff prif ffrwd a staff y ddarpariaeth adnoddau.

**SA02: Addysgu a dysgu**

Mae'r ddarpariaeth adnoddau yn rhoi cymorth, cyngor a hyfforddiant arbenigol i athrawon a chynorthwywyr addysgu prif ffrwd er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol plant a phobl ifanc byddar fel y gall disgyblion wneud cynnydd addysgol da a lleihau neu gau unrhyw fwlch cyrhaeddiad sydd rhyngddynt a disgyblion eraill.

Anghenion:

- Mae yna ddisgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc byddar ac mae’r addysgu a dysgu ar draws y ddarpariaeth a'r ysgol yn adlewyrchu hyn.

- Mae staff yr ysgol yn deall sut y gall byddardod effeithio ar addysg plentyn neu berson ifanc byddar ac mae hyfforddiant ar hyn yn cael ei amserlenni yn rhaglen HMS yr ysgol.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn derbyn asesiadau arbenigol manwl ac fe'u defnyddir i osod targedau heriol ond synhwyrol gyda'r nod o gau neu leihau'r bwlch cyrhaeddiad a llywio addysgu a dysgu.

- Mae cymorth mewn gwersi prif ffrwd yn cael ei gynllunio’n ofalus yn cynnwys pob aelod o staff priodol er mwyn sicrhau cynhwysiad llwyddiannus, cyrhaeddiad a chyflawniad uchel, a hyrwyddo dysgu annibynnol.

- Mae ymyriadau ychwanegol yn effeithiol ac yn dangos cynnydd cyflymedig neu gyson.

- Mae staff cymorth arbenigol yn gweithio gydag athrawon dosbarth a/neu bwnc i sicrhau bod dysgu yn ymdrin â mynediad cyfyngedig plant a phobl ifanc byddar at ddysgu anfwriadol.

- Bydd staff yn defnyddio cymorth priodol gan gydweithwyr addysg arbenigol lle mae gan blant byddar anghenion ychwanegol sylweddol, er enghraifft, gan therapydd lleferydd ac iaith.

**AS03 Amgylchedd ysgol cynhwysol**

Mae diwylliant ac ethos yr ysgol yn hyrwyddo cynhwysedd a llwyddiant plant a phobl ifanc byddar ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn llwyr ym mholisïau a chynlluniau'r ysgol.

Anghenion:

- Mae'r ysgol gyfan yn meithrin agwedd cadarnhaol tuag at fyddardod a materion byddar, ac yn cynnwys ymwybyddiaeth o fyddardod yn unrhyw raglen gymdeithasol, emosiynol, iechyd a pherthnasau.

- Gwneir addasiadau rhesymol er mwyn helpu disgyblion byddar gael eu cynnwys yn yr ysgol.

- Mae pob plentyn neu berson ifanc byddar yn cael eu trin fel unigolyn ac yn teimlo eu bod yn cael ei ystyried yn werthfawr ac yn rhan o gymuned yr ysgol. Maent yn ymgymryd â rolau cyfrifol o fewn yr ysgol ac yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau o fewn yr ysgol.

- Mae yna gyfathrebu effeithiol rhwng plant a phobl ifanc byddar a staff, naill ai wedi'i arwyddo neu lafar. Lle mae dewis dull cyfathrebu plentyn neu berson ifanc byddar yn Iaith Arwyddion Prydain neu Wyddeleg, dylai plant ac athrawon prif ffrwd sy'n clywed gael cyfleoedd i ddod yn alluog mewn cyfathrebu ag arwyddion, lle bo'n bosibl.

- Mae llwyddiannau plant a phobl ifanc byddar yn cael eu dathlu.

- Mae'r ddarpariaeth adnoddau yn rhan annatod o'r ysgol. Mae pob aelod o staff y ddarpariaeth yn mynychu hyfforddiant mewn swydd briodol ac wedi'u hymrwymo'n llawn mewn pob agwedd o fywyd ysgol.

- Darperir hyfforddiant yn rheolaidd i bob aelod o staff yr ysgol er mwyn creu ysgol gynhwysol i blant a phobl ifanc byddar. Caiff staff prif ffrwd y cyfle i gael mynediad at hyfforddiant mewn iaith arwyddion ac ymwybyddiaeth am fyddardod sydd yn eu galluogi i gyfathrebu gyda disgyblion byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu Wyddeleg fel eu dewis dull cyfathrebu.

- Mae'r ysgol wedi ymgymryd ag archwiliad acwsteg ac wedi gwneud addasiadau priodol er mwyn sicrhau amgylcheddau dysgu sydd a'r acwsteg gorau posibl. Mae amgylchedd acwstig y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion gofynnol safonau cenedlaethol priodol ac mae hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae staff yn deall pwysigrwydd rheoli sŵn ac yn rhoi strategaethau ar waith i reoli sŵn o fewn yr ystafell ddosbarth ac amgylchedd yr ysgol gyfan.

## Canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar

### SA04: Cynnydd, cyrhaeddiad a disgwyliadau addysgol

Mae disgwyliadau o ran llwyddiant plant a phobl ifanc byddar yn uchel ac mae yna ffocws cryf ar godi cyrhaeddiad. Dylai cynnydd plant a phobl ifanc byddar fod o leiaf yn debyg i ddisgyblion eraill o allu tebyg a dylai fod yna dystiolaeth fod unrhyw fwlch yn cael ei leihau neu ei gau.

Anghenion:

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn sawl pwnc yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg, a Gwyddoniaeth. Gall disgyblion ddefnyddio ystod o sgiliau yn effeithiol iawn mewn darllen, ysgrifennu, cyfathrebu a mathemateg.

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas i'w man cychwyn a bod unrhyw fylchau cyrhaeddiad yn cael eu lleihau.

- Mae'r ysgol yn arolygu'r broses yn gyson ac yn fanwl ac yn meddu ar ddata sy'n dangos bod cynnydd plant a phobl ifanc byddar yn briodol i'w hoedran ac o leiaf yn unol â chynnydd disgyblion o allu tebyg sy'n gallu clywed.

- Defnyddir dadansoddiadau ac asesiadau arbenigol manwl o gyrhaeddiad a chynnydd er mwyn:

  - gosod targedau heriol ond synhwyrol i blant a phobl ifanc byddar, gyda ffocws penodol ar ddatblygu iaith a llythrennedd, a hybu mynediad annibynnol at ddysgu yn ogystal â dysgu yn annibynnol
  - amlygu ac ymdrin ag unrhyw fylchau mewn dysgu plentyn neu berson ifanc byddar ac i ragddisgwyl unrhyw gysyniadau a fydd yn ofynnol
  - disgrifio datblygiad y plentyn a'i gymharu ag asesiadau blaenorol er mwyn monitro cynnydd
  - llywio a gwerthuso llwyddiant rhaglenni dysgu unigol.

- Mae'r plant a phobl ifanc byddar mwyaf galluog yn cael eu hadnabod ac mae targedau sy'n briodol o heriol yn cael eu gosod iddynt. Caiff eu cefnogi yn unol â pholisi'r ysgol a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r cyfrifoldeb am drefnu adolygiadau blynyddol statudol yn glir.

- Defnyddir asesiadau camau bach i fonitro cynnydd, yn enwedig lle bo'r ddarpariaeth adnoddau yn derbyn disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol sylweddol. Mae'r disgwyliadau ar y disgyblion hyn yn uchel a chaiff eu llywio gan ddealltwriaeth o sut gall eu hanghenion eraill effeithio ar ddysgu a chynnydd.

- Mae data yn dangos bod y nifer o ddyddiau ysgol a gollir gan blant a phobl ifanc byddar oherwydd gwaharddiadau ac absenoldebau eraill yn unol â, neu'n well na'r ffigur i blant a phobl ifanc i gyd. Mewn rhai achosion efallai byddai'n rhaid caniatáu ar gyfer unrhyw anghenion gofal iechyd ychwanegol sydd gan y plentyn neu berson ifanc.

Mae ein hadnodd, *Assessments for Deaf Children and Young People*, yn darparu Athrawon Plant Byddar gyda gwybodaeth a chyngor ar ddefnydd asesiadau arbenigol. Gellir lawrlwytho'r ddogfen o www.ndcs.org.uk/assessments.

**SA05: Cymryd cyfrifoldeb a gwneud cyfraniad cadarnhaol**

Mae plant a phobl ifanc byddar yn cymryd cyfrifoldebau ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ysgol a/neu'r gymuned ehangach.

**Anghenion**

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn cael cyfleoedd i ymgymryd â rolau cyfrifol o fewn yr ysgol ac i gyfrannu at wneud penderfyniadau o fewn yr ysgol.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn teimlo'n hyderus am fynegi eu barn a gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau o fewn yr ysgol.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau ysgol. Darperir cymorth ar gyfer anghenion cyfathrebu ym mhob gweithgaredd. Mae yna ddata ar gael i ddangos bod eu cyfraddau cyfranogiad yn debyg i gyfraddau plant a phobl ifanc sy'n clywed.

- Mae yna ddigon o drafnidiaeth ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol neu, lle bo hyn yn anodd, ystyrir darparu clybiau a gweithgareddau yn ystod amser cinio.

**SA06 Cadw a theimlo'n ddiogel**

Mae plant a phobl ifanc byddar yn datblygu sgiliau diogelwch personol a sgiliau byw'n annibynnol da. Mae polisïau ac arferion diogelu'r ysgol yn cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc byddar.

Anghenion:

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn datblygu’r wybodaeth, sgiliau a hunanwerth sydd angen arnynt i adnabod a rheoli risgiau yn ogystal â sefyllfaoedd lle maent, neu gallent ddod, yn agored i niwed (yn cynnwys defnyddio'r rhyngrwyd neu'r gallu i wrthsefyll pwysau gan gyfoedion).

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn teimlo bod yna oedolyn y maent yn ymddiried ynddo y gallent siarad â nhw os ydynt yn cael anawsterau ac mae yna ddewis o oedolion ar gael y gallent siarad â nhw yn eu dewis dull cyfathrebu neu iaith. Mae'r oedolyn hwn yn deall ac yn gwybod am bolisïau a threfnau amddiffyn plant.

- Mae'r polisïau a threfnau gwrthfwlio a gwahaniaethu'r ysgol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar ddim yn cael eu bwlio neu'u plagio am eu byddardod. Mae digwyddiadau yn cael eu trin a'u cofnodi'n briodol.

- Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal sy’n mesur risgiau iechyd a diogelwch yn ofalus mewn perthynas â gweithgareddau ac amgylchiadau tu fewn a thu fas i'r ysgol. Cymerir camau i liniaru risgiau o’r fath i sicrhau bod yna gyfranogiad lawn i blant a phobl ifanc byddar.

- Mae'r athro a dynodwyd ar gyfer amddiffyn plant a'r athro sydd â gofal am y ddarpariaeth adnoddau yn ymwybodol bod plant a phobl ifanc byddar yn fwy agored i gael eu cam-drin. Dylent fod yn ymwybodol o'r sgiliau sydd angen arnynt i gyfathrebu gyda phlant byddar a dylent fod yn ymwybodol o'r trothwyon a llwybrau priodol am wneud cyfeirebau yn eu hardal.

- Mae staff y ddarpariaeth adnoddau yn cydweithio’n agos â staff prif ffrwd, ac yn eu hyfforddi i gefnogi anghenion plant byddar ac i sicrhau bod polisïau a phrotocolau amddiffyn plant yr ysgol yn cael eu dilyn.

- Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau bod plant byddar yn cadw at yr un safonau â phlant eraill yn ogystal â chymryd camau rhesymol i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer plant byddar, lle bo’n briodol. Gall hyn gynnwys achosion lle bo plant byddar ddim wedi deall cyfarwyddiadau neu ddisgwyliadau ymddygiad neu yn profi rhwystredigaeth benodol am resymau sy’n gysylltiedig â’u byddardod.

**SA07: Lles cymdeithasol ac emosiynol**

Mae plant a phobl ifanc byddar yn datblygu sgiliau cymdeithasol, yn meddu ar lefelau da o hunanwerth a hyder, ac yn datblygu hunaniaeth gadarnhaol.

Anghenion:

- Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o effaith posib byddardod ac anawsterau cyfathrebu ar hyder, hunanwerth ac iechyd meddwl plentyn neu berson ifanc, ac yn gweithredu strategaethau dysgu a chymorth bugeiliol er mwyn ymdrin â hyn.

- Rhoddir cyfleoedd i blant a phobl ifanc byddar i gwrdd â chyfoedion byddar yn rheolaidd, yn enwedig lle mae’r nifer sy'n mynychu'r ddarpariaeth adnoddau yn isel, e.e. dim ond un plentyn byddar sydd mewn grŵp blwyddyn.

- Mae gan blant a phobl ifanc byddar gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a chymuned Fyddar, ac â mynediad at ystod o fodelau rôl byddar.

- Mae cyfoedion byddar a'r rheini sy'n clywed yn cael eu dysgu sut i gyfathrebu gyda'i gilydd fel bod yna gyfathrebu a rhyngweithiad cymdeithasol da rhwng plant a phobl ifanc byddar a phlant a phobl ifanc sy'n clywed.

- Mae gan blant a phobl ifanc byddar y cyfle i gymryd cyfrifoldeb am eu byddardod eu hunain trwy ddatblygu dealltwriaeth glir am eu byddardod a'r goblygiadau iddynt. Maent yn datblygu sgiliau llythrennedd emosiynol a’r gallu a’r hyder i adnabod a chyfathrebu eu hemosiynau a’u hanghenion.

- Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o bryd i atgyferio plentyn neu berson ifanc byddar ar gyfer asesiad cynghori arbenigol. Mae staff yr ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw cynghori o’r fath yn hygyrch i blant a phobl ifanc byddar.

**SA08: Cyrchfannau ar ôl gadael yr ysgol**

Mae proffil cyrchfannau pobl ifanc byddar ar ôl iddynt adael yr ysgol yn debyg i gyrchfannau myfyrwyr i gyd.

Anghenion:

- Mae staff yr ysgol yn disgwyl bydd bob person ifanc byddar naill ai yn dod o hyd i gyflogaeth neu yn mynychu addysg bellach neu addysg uwch pan ydynt yn oedran gadael ysgol.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol am yr hyn y gallent ei gyflawni ar ôl gadael ysgol. Mae staff yn eu hannog i gael uchelgeisiau mor eang â phosib am eu gyrfaoedd yn y dyfodol ac i wneud ceisiadau am gyrsiau sydd yn fwyaf addas er mwyn ddatblygu eu potensial.

- Mae gan bobl ifanc byddar fynediad at ystod o fodelau rôl byddar a'r cyfle i ddysgu am yr ystod eang o wahanol yrfaoedd y gall pobl fyddar ei wneud.

- Mae pobl ifanc a'u rhieni yn derbyn gwybodaeth lawn pan fo'n briodol (yn cynnwys pan ydynt yn meddwl am eu dewisiadau pwnc), am eu hopsiynau ar ôl gadael yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y cymorth, gwasanaethau a chynlluniau sydd ar gael i alluogi pobl fyddar i fynychu colegau addysg bellach a phrifysgolion neu ymuno â chynllun prentisiaeth neu gael mynediad at waith. Er enghraifft, Mynediad at Waith neu Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn ogystal â'u hawliau yn y gweithle o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 neu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yng Ngogledd Iwerddon.

- Mae yna drefniadau trawsnewid effeithiol ar waith ar gyfer pobl ifanc byddar 14+ oed (gyda mynediad at gyngor a chymorth gyrfaol prif ffrwd ac arbenigol), yn cynnwys asesu angen y person ifanc am gymorth i oresgyn rhwystrau posib, darparu gwybodaeth ar ddewisiadau, ymrwymiad myfyriwr llawn, ymweliadau trawsnewid a chyswllt â'r sefydliad addysgol neu'r cyflogwr.

- Mae pobl ifanc fyddar yn cael profiad gwaith perthnasol a chyfleoedd menter sydd yn eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau craidd mewn cyd-destun bywyd bob dydd.

- Mae data am gyrchfannau ymadawyr ysgol ôl-16 yn dangos bod y gyfran o bobl ifanc fyddar mewn addysg lawn amser, cyflogaeth a hyfforddiant yn debyg i'r gyfran o fyfyrwyr sy'n clywed.

**Arweiniad a rheolaeth**

**SA09: Gweledigaeth a chynllunio**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y ddarpariaeth adnoddau sy’n creu ethos cynhwysol, disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar.

Anghenion

- Mae’r weledigaeth yn cael ei chefnogi gan holl gymuned yr ysgol ac fe'i hadlewyrchir ym mholisïau, cynlluniau ac ymarfer. Yn benodol, adlewyrchir y weledigaeth yn ansawdd cynlluniau gwella ar gyfer y ddarpariaeth adnoddau a'u gweithrediad, yn cynnwys:
    - cydnabod blaenoriaethau allweddol ar gyfer y ddarpariaeth adnoddau gyda thargedau, gweithredoedd, cerrig milltir briodol a llinellau atebolrwydd clir
    - ffocws clir ar wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar
    - gwirio yn rheolaidd pa mor dda a weithredir cynlluniau a pholisïau sy'n berthnasol i ansawdd addysgu a dysgu ac agweddau eraill gwaith y ddarpariaeth adnoddau
    - adolygu ac addasu cynlluniau, gweithredoedd a blaenoriaethau yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid
- Mae yna drefniadau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd plant a phobl ifanc byddar ac effaith y ddarpariaeth adnoddau ar addysgu a dysgu, yn cynnwys:
    - arsylwi gwersi gan uwch reolwr a staff arbenigol eraill i fonitro ansawdd addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc byddar mewn gwersi prif ffrwd. Lle bo’n briodol, ymgymerir yr arsylwadau gan staff uwch sydd â'r sgiliau priodol mewn addysg fyddar ac iaith arwyddion.
    - arsylwi addysgu yn y ddarpariaeth adnoddau a'i ffocws ar gwrdd â thargedau dysgu plant a phobl ifanc byddar
    - mae yna archwiliad i dargedau, canlyniadau a chynnydd plant a phobl ifanc byddar yn y ddarpariaeth adnoddau wrth feincnodi eu cyrhaeddiad a chynnydd yn erbyn plant a phobl ifanc i gyd, ac yn erbyn data cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar
    - dadansoddiad o effeithiolrwydd gwahanol ffurf o gymorth, yn cynnwys gweithwyr cymorth cyfathrebu, cynorthwywyr cymorth dysgu neu addysgu a'r gwahanol ffurf o gymorth maent yn ei ddarparu
    - adborth gan ddefnyddwyr y ddarpariaeth adnoddau (er enghraifft, disgyblion, rhieni, staff prif ffrwd).
- Gall staff y ddarpariaeth adnoddau gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol fel y gall unrhyw faterion, heriau a chanlyniadau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc byddar cael eu trafod ar lefel rheolaeth uwch.
- Mae corff llywodraethu’r ysgol yn cymryd diddordeb byw mewn gwaith y ddarpariaeth adnoddau ac yn derbyn adroddiadau ar ei heffaith ar addysgu, dysgu a gwella canlyniadau disgyblion byddar.

**SA10: Rheolaeth ariannol**

Mae'r adnoddau a ddyrannir i'r ysgol ar gyfer y ddarpariaeth adnoddau wedi'u rheoli'n dda ac wedi'u hanelu'n effeithiol at gefnogi cynnydd plant a phobl ifanc byddar. Mae’r ddarpariaeth yn gallu dangos gwerth am arian.

Anghenion:

- Mae’r ysgol yn gallu dangos sut y mae'n defnyddio, monitro ac adolygu defnydd y cyllid neu’r adnoddau a ddyrannir iddi er mwyn i'r ddarpariaeth adnoddau wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar.

- Mae gan yr Athro Plant Byddar Cymwysedig sy’n gyfrifol am y ddarpariaeth adnoddau ddealltwriaeth o feini prawf ariannu, cyllidebau dirprwyedig a’r cytundeb lefel gwasanaeth. Mae’r Athro Plant Byddar Cymwysedig yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau ynglŷn â dyrannu cyllid, staffio ac adnoddau.

**SA11: Staffio**

Mae’r lefel, cymwysterau, sgiliau a gwybodaeth arbenigol, hyfforddiant a lleoliad staff o fewn y ddarpariaeth adnoddau yn sicrhau bod:

- staff prif ffrwd yn derbyn y cymorth arbenigol sydd angen arnynt er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar yn dod ymlaen
- plant a phobl ifanc byddar yn derbyn y cymorth sydd angen arnynt i gymryd rhan yn llawn mewn bywyd yr ysgol ac i wneud cynnydd da.

Anghenion:

Lefelau staffio

- Mae nifer yr athrawon arbenigol yn y ddarpariaeth adnoddau yn gyson o leiaf gyda’r nifer lleiaf a awgrymir gan Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) (h.y. un Athro Plant Byddar Cymwysedig i bob chwe disgybl byddar).

- Mae yna ddigon o gynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth cyfathrebu sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol priodol, i sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar yn derbyn y cymorth sydd angen arnynt i gael mynediad at wersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

- Mae gan yr ysgol cynlluniau at raid i ddarparu cyflenwad priodol os byddai aelod allweddol o staff yn absennol o’r gwaith am gyfnod estynedig.

Cymwysterau a chymwyseddau staff:

- Mae gan bob aelod o staff addysgu o fewn y ddarpariaeth y cymhwyster Athro Plant Byddar gorfodol neu o dan hyfforddiant ar ei gyfer ac â phrofiad priodol.

- Mae gan Athrawon Plant Byddar Cymwysedig yr ystod o sgiliau cyfathrebu sydd ei hangen arnynt i ddysgu trwy ddefnyddio dewis dull cyfathrebu eu disgyblion, yn cynnwys gwybod sut i gydweithio â gweithwyr cymorth cyfathrebu a gweithwyr cyfathrebu proffesiynol eraill.

- Mae rolau a chyfrifoldebau athrawon, cynorthwywyr addysgu, technegwyr, hyfforddwyr byddar a gweithwyr cymorth cyfathrebu yn glir o’u disgrifiadau swydd ac mae’r manylion hyn yn cael eu cyfleu i bob aelod o’r staff, disgybl a rhiant.

- Mae golau blynyddol y staff yn adlewyrchu anghenion y plant a phobl ifanc y darperir ar eu cyfer yn bresennol o fewn y ddarpariaeth adnoddau.

- Mae cynorthwywyr addysgu, gweithwyr cymorth cyfathrebu a staff cymorth arbenigol eraill yn y ddarpariaeth adnoddau yn deall diwylliant Byddar, y problemau sy’n wynebu plant a phobl ifanc byddar, y rhwystrau i ddysgu y maent yn eu hwynebu a’u rôl mewn asesu a chefnogi rhaglenni ymyrraeth ar eu cyfer.

- Dylai cynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth cyfathrebu arbenigol wedi derbyn hyfforddiant sydd yn briodol i’r grŵp oedran y maent yn gweithio gyda nhw e.e. dylai’r rheini sy’n gweithio mewn ysgolion uwchradd ac uwch hefyd feddu ar lefelau cymhwysedd uwch sy’n addas i ofynion academaidd y maes pwnc.

- Mae cynorthwywyr addysgu cyffredinol mewn ysgolion prif ffrwd wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda

phlant a phobl ifanc byddar.

- Lle mae disgyblion byddar yn defnyddio iaith arwyddion i gael mynediad at y cwricwlwm, mae gweithwyr cymorth cyfathrebu wedi'u cymhwyso yn eu rôl a hefyd yn meddu ar sgiliau uwch mewn iaith arwyddion. Er enghraifft, lle y defnyddir Iaith Arwyddion Prydain (BSL), bydd rhaid iddynt gael cymhwyster BSL Lefel 3 o leiaf neu â BSL Lefel 2 ac yn gweithio tuag at Lefel 3. Mae Lefel 3 yn hafal i Lefel A mewn iaith dramor fodern ac mae Lefel 2 yn hafal i TGAU. Felly mae'n annhebygol y bydd cymhwyster Lefel 2 yn ddigon i alluogi gweithiwr cymorth cyfathrebu i gyfathrebu yn fanwl gywir yr hyn mae athro yn ei ddweud mewn dosbarth i ddisgybl sydd angen iaith arwyddion i gael mynediad at addysgu a dysgu, yn enwedig o ystyried gofynion y cwricwlwm.

- Dylai gweithwyr cymorth cyfathrebu, cynorthwywyr addysgu arbenigol ac Athrawon Plant Byddar Cymwysedig feddu ar yr ystod ofynnol o sgiliau cymorth cyfathrebu, e.e gwefus-siarad, Saesneg / Cymraeg â Chymorth Arwyddion, Llefaru Gyda Chymorth, ayb.

- Mae pennaeth y ddarpariaeth yn cael ei gynrychioli ar dîm rheoli'r ysgol neu mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynrychioli gan aelod enwebedig o'r tîm rheoli uwch.

Lleoli staff yn effeithiol:

- Defnyddir staff yn effeithiol drwy sicrhau bod eu lleoliad yn cyfateb i asesiad anghenion pob disgybl byddar ac i'r ymyriadau a chymorth sydd angen arnynt er mwyn cael mynediad at y cwricwlwm a chwrdd â'u targedau dysgu.

- Mae staff prif ffrwd yn ymwybodol o rôl, gwybodaeth a sgiliau'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau, a derbynnir adborth cadarnhaol gan staff ysgol prif ffrwd ar y cymorth maent yn ei dderbyn gan gydweithwyr yn y ddarpariaeth.

- Ni chaiff staff sy'n gweithio'n benodol gyda disgyblion byddar eu tynnu i weithio ar dasgau sy'n amherthnasol i gefnogi addysg disgybl byddar.

Rheoli perfformiad a datblygiad staff:

- Dylai gwerthusiadau ar gyfer staff arbenigol gynnwys cyfraniad gan arbenigwr mewn addysg plant a phobl ifanc byddar.

- Mae yna gysylltiad rhwng gwerthusiadau, canlyniadau addysgiadol a chynllun datblygiad y ddarpariaeth adnoddau.

- Mae yna raglen datblygu staff sy'n galluogi pob aelod o staff yn y ddarpariaeth adnoddau i gynnal lefelau uchel o wybodaeth arbenigol/cymwysterau uwch priodol, ymgyfarwyddo ag ymchwil a methodolegau cyfredol a datblygiadau allweddol i'r cwricwlwm.

**SA12: Defnyddio technoleg**

Mae gan blant a phobl ifanc byddar fynediad at dechnoleg gyfredol sydd wedi'i rheoli'n briodol er mwyn gwella eu mynediad at iaith ar lafar, y cwricwlwm, yr amgylchedd clywedol ac yn cefnogi datblygiad eu sgiliau iaith.

Anghenion:

- Mae yna bolisi sydd yn hyrwyddo rhaglen dreigl o gynhaliaeth a buddsoddiad mewn diweddaru offer technolegol sydd yn rhan o gynllun yr ysgol i sicrhau hygyrchedd i ddisgyblion sydd ag anableddau.

- Mae unrhyw dechnolegau newydd yn cael eu gwerthuso a'u darparu ar gyfer disgyblion ac mae gan y ddarpariaeth adnoddau fynediad cyson at gymorth gan awdiolegydd addysgol neu dechnegydd clywedegol hyfforddedig.

- Mae Athrawon Plant Byddar Cymwysedig yn ymwybodol o'r technolegau newydd ac yn cael cyfleoedd i brofi eu gwerth posib fel offer dysgu.

- Mae plant a phobl ifanc byddar yn cael eu cefnogi i fanteisio ar ddefnyddio offer er mwyn gwella eu hannibyniaeth (er enghraifft, gwasanaethau cyfnewid, cymorth lleferydd i destun, apiau, ayb.).

- Mae gan yr ysgol bolisi awdioleg effeithiol sy'n amlinellu:

    - pwy sy'n arwain ar awdioleg yn yr ysgol
    - sut y cynhelir a rheolir cyfarpar o ddydd i ddydd
    - cyfrifoldeb am ddarparu cyfarpar sbâr neu newydd
    - sut y sicrheir hawl disgybl i gael teclynnau clyw a systemau cymorth radio sy'n gweithio yn briodol bob amser
    - anghenion hyfforddi staff
    - sut y rheolir acwsteg ac addasiadau amgylcheddol yn yr ysgol ac mewn ystafelloedd penodol.

- Mae'r polisi awdioleg yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni technolegau datblygol.

- Mae pob aelod o staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant mewn defnyddio systemau cymorth radio ac yn eu defnyddio'n ymarferol. Mae'r ymarfer yn cydymffurfio ag adnodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar *Quality Standards for the Use of Personal Radio Aids: Promoting easier listening for deaf children* (ar gael yn www.ndcs.org.uk/quality-standards-radio-aids).

- Mae gan staff y ddarpariaeth y sgiliau i ddatrys problemau gyda'r technolegau clywed i gyd a ddefnyddir gan y plant a phobl ifanc byddar yn y ddarpariaeth. Mae'r cyfarpar i gyd yn cael ei wirio bob dydd gan aelod o staff sydd â'r sgiliau gofynnol.

- Dylai plant a phobl ifanc byddar ddatblygu dealltwriaeth am eu byddardod a dod yn gyfarwydd â'r dechnoleg i gyd sydd ar gael iddynt. Maent yn cael eu cefnogi i ddod yn annibynnol i wirio eu cyfarpar eu hunain ac i ddweud wrth staff am unrhyw afreoleidd-dra neu namau.

- Mae DVDs neu glipiau fideo ar-lein gydag is-deitlau ar gael fel mater o drefn pan ydynt yn cael eu defnyddio yn y ddarpariaeth adnoddau a gwersi prif ffrwd.

- Darperir ffyrdd priodol i blant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd (yn cynnwys rhieni byddar) i gysylltu â'r ysgol. Er enghraifft, rhif neges destun penodol i dderbyn negeseuon testun a llais, e-bost, ayb. Gofynnir i deuluoedd am gyngor am eu dewis dull cyfathrebu.

**SA13: Cytundeb lefel gwasanaeth**

Mae yna gytundeb lefel gwasanaeth clir rhwng comisiynydd y ddarpariaeth adnoddau (fel arfer yr awdurdod lleol neu'r Awdurdod Addysg yng Ngogledd Iwerddon) a'r ysgol. Mae'n amlinellu:

- cyfrifoldebau pob parti
- trefniadau ariannu
- nifer y llefydd wedi'u hariannu a meini prawf derbyniadau
- safonau ansawdd
- trefniadau monitro a sicrhau ansawdd

Anghenion:

- Darperir data monitro a pherfformiad i'r comisiynydd.

- Cynhelir o leiaf un cyfarfod blynyddol rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol neu gynrychiolwyr y bwrdd i drafod darparu'r gwasanaeth, cynnydd plant a phobl ifanc byddar, unrhyw faterion newydd ac i adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth.

- Mae trefniadau comisiynu yn sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a sefydlogrwydd cyllid yn y tymor canolig o leiaf.

**Noder:** Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth enghreifftiol sy'n amlygu cydrannau allweddol cytundeb, yn cynnwys beth allwch gynnwys mewn adroddiad monitro ar gael yn y wybodaeth ‘Service level agreements/specifications’ ar ein gwefan yma: www.ndcs.org.uk/educationmanagers.

## Cyfranogaeth a gweithio mewn partneriaeth

**SA14: Partneriaeth gyda rhieni plant a phobl ifanc byddar**

Mae rhieni yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu darpariaeth addysg yn yr ysgol. Cefnogir rhieni i ddatblygu eu rôl fel addysgwyr i'w plant.

Anghenion:

- Mae rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried yn werthfawr ac mae yna dystiolaeth i ddangos bod eu barnau wedi'u hystyried a bod staff yr ysgol a neu'r ddarpariaeth adnoddau wedi rhoi ymateb priodol.

- Gofynnwyd am adborth gan bob rhiant ac fe'i defnyddiwyd i lywio datblygiad polisïau a chynlluniau'r ddarpariaeth adnoddau.

- Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth gyfredol a hygyrch yn rheolaidd am:

    - gynnydd eu plentyn, y targedau a gosodir ac unrhyw fesurau a gymerir i gwrdd ag unrhyw anawsterau mae’r plentyn neu berson ifanc yn cael mewn gwneud cynnydd
    - gyfranogiad eu plentyn ym mywyd yr ysgol a datblygiad sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch eu plentyn.

- Mae rhieni yn gwybod â phwy ddylent ei gysylltu i godi unrhyw faterion ynglŷn â’u plant.

- Mae yna dystiolaeth i ddangos bod pob rhiant yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio, llywio a chefnogi cynllun neu raglen dysgu unigol eu plentyn. Lle nad ydynt yn cael eu cynnwys, mae yna dystiolaeth i ddangos bod y ddarpariaeth wedi gwneud pob ymdrech i hwyluso cyfraniad y rhieni.

- Mae yna drefnau sefydledig, cyfredol ac sydd wedi'u hysbysebu ar waith fel y gall rhieni gysylltu â'r ddarpariaeth i drafod addysg eu plentyn.

- Mae yna gysylltiadau cryf gyda chartref y plentyn i alluogi rhieni i gyfrannu at ddysgu eu plentyn:

    - mae rhieni yn derbyn gwybodaeth am y dechnoleg glywed a dyfeisiau cynorthwyol diweddaraf, a sut i gefnogi eu plentyn i fanteisio'n llwyr o'r dechnoleg.
    - rhoddir cyngor a chymorth i rieni i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu eu plentyn. Gall hyn fod mewn mwy nag un iaith neu ddull.
    - mae rhieni yn derbyn gwybodaeth am y cwricwlwm, cysyniadau a geirfa newydd y dylent eu defnyddio, a sut y gallent gefnogi dysgu eu plentyn.
    - darperir dehonglwyr/trefniadau mynediad yn rheolaidd ar gyfer rhieni byddar os a phan fo angen

**SA15: Cynnwys plant a phobl ifanc byddar**

Mae plant a phobl ifanc byddar yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu haddysg.

Anghenion:

- Mae barnau'r plant a phobl ifanc byddar wedi llywio'r polisïau a chynlluniau'r ddarpariaeth adnoddau.
- Cynhwysir plant a phobl ifanc byddar yn llawn mewn cydnabod a chynllunio'r cymorth a threfniadau mynediad sydd angen arnynt yn y tymor hir ac o ddydd i ddydd.
- Cymaint ag y bo modd, mae gan blant a phobl ifanc byddar ddealltwriaeth lawn o'u targedau ac maent wedi'u cynnwys yn llawn mewn gosod targedau ac yn adolygiadau eu cefnogaeth a/neu gynlluniau statudol. Er enghraifft datganiad anghenion addysgol arbennig, Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, cynllun cymorth cydgysylltiedig neu Gynllun Addysg Unigol.

**SA16: Gwaith aml asiantaeth**

Mae'r person yn yr ysgol sy'n gyfrifol am anghenion arbennig neu ychwanegol a phennaeth y ddarpariaeth adnoddau yn cynnal perthnasau cadarnhaol gyda gwasanaethau eraill fel awdioleg, therapi lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysgol, canolfannau mewnblaniadau yn y cochlear, gwasanaethau iechyd eraill, gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg arbenigol eraill i sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar yn derbyn y cymorth cyfannol sydd angen arnynt i gwrdd â'u hanghenion ac i helpu eu dilyniant.

Anghenion:

- Mae yna asesiad aml asiantaeth cyflym o anghenion plant a phobl ifanc byddar a chynllun cydgysylltiedig i gwrdd â'u hanghenion sy'n cael ei fonitro a'i adolygu yn rheolaidd.

- Mae yna wybodaeth glir ar, a dealltwriaeth dda am, y trothwyon a'r llwybrau cyfeirio at wasanaethau eraill.

- Mae yna gyd-ddealltwriaeth ar draws asiantaethau am ganlyniadau dymunol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar.

- Mae'r ysgol yn gwneud ei gorau i sicrhau y darperir unrhyw therapi lleferydd ac iaith sydd yn angenrheidiol.

- Mae'r ysgol yn gweithio yn effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol eraill (fel Athrawon Plant Byddar Cymwysedig neu weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol) a rhieni i sicrhau trawsnewidiaeth esmwyth i mewn i'r ysgol.

- Ar lefel uwchradd, mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad effeithiol at drefnau aml asiantaeth a anelir at sicrhau trawsnewidiad esmwyth i wasanaethau oedolion (e.e. awdioleg neu wasanaethau gofal cymdeithasol).

- Mae'r ysgol yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dod i'r ysgol i gefnogi plant a phobl ifanc byddar e.e. mae ystafelloedd sydd yn rhydd rhag aflonyddwch ac sydd ag acwsteg dda ar gael.

**Rhan 3: Hunanwerthuso**

**Casglu data a thystiolaeth**

Nod sylfaenol y safonau ansawdd yw gwella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc byddar drwy ddarparu fframwaith sydd yn helpu ysgolion sydd â darpariaethau adnoddau i:

- werthuso effeithiolrwydd eu darpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar
- feincnodi eu perfformiad yn erbyn darpariaethau tebyg ar lefel rhanbarthol a/neu genedlaethol.

Mae'r dystiolaeth a data y gofynnir amdanynt i gefnogi'r safonau ansawdd ac i gyflawni hunanwerthusiad yn cynnwys:

- Y rheini sy'n cael eu cofnodi yn fframwaith hunanwerthuso a mesuriadau perfformiad yr ysgol - fel arfer wedi'u darparu fel data rhifol a gall adlewyrchu cynnydd a wneir gan blant a phobl ifanc byddar ar ffurf targedau a gyrhaeddir, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â:

    - data cyrhaeddiad a llwyddiant
    - lefelau llythrennedd ar fynediad ac wrth adael
    - cynnydd iaith dros amser
    - canlyniadau profion maen prawf a norm-gyfeiriol
    - ystadegau cyrchfannau
    - gwerth cyd-destunol a ychwanegwyd
    - materion cymdeithasol, emosiynol, agweddol neu ymddygiadol
    - nifer yr achosion o fwlio
    - presenoldeb a gwaharddiad.

- mesuriadau canfyddiadau – gall hyn gynnwys arolygon am farnau plant a phobl ifanc byddar, eu rhieni a staff prif ffrwd a gefnogir gan y ddarpariaeth adnoddau

- adborth – adborth allanol gan wasanaethau gwella ysgolion, arolygiadau, gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau eraill, gwasanaethau cymorth arbenigol fel seicolegwyr addysgol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal ag adolygiad blynyddol o'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod neu fwrdd lleol. Adborth mewnol fel nodiadau o fonitro mewnol parhaus gan uwch reolwyr yr ysgol.

Mae'n bwysig nodi dylid casglu tystiolaeth a data yn rheolaidd ar gyfer hunanwerthuso ac, o ystyried y nifer fach o ddisgyblion byddar ym mhob grŵp blwyddyn, gall edrych ar wybodaeth ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion dros gyfnod o dri i bum mlynedd fod yn angenrheidiol er mwyn meincnodi yn unol â data sydd efallai ar gael yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.

Mae offeryn hunanwerthuso yn cyd-fynd â'r safonau ansawdd hyn a gellir ei lawrlwytho yn www.ndcs.org.uk/SARPs.

**Geirfa**

**Angen ychwanegol sylweddol** – diffinnir fel anhawster neu angen ychwanegol sydd, pan gyfunir â byddardod, yn cyflwyno her sylweddol i ddysgu a mynediad at addysg.

**Athro Plant Byddar Cymwysedig (QToD)** – Athrawon cymwysedig sydd wedi cyflawni'r cymhwyster gofynnol mewn dysgu plant byddar.

**Awdurdodau lleol** – mae gan y rheini gyfrifoldeb am addysg yn Lloegr, Yr Alban a Chymru.

**Cynnydd disgybl** – cyflymder dysgu disgyblion. Fel arfer fe'i diffinnir yn ôl dwy elfen:

- maint y cynnydd o'r amser dechreuodd y plentyn ar y pwnc neu pan ddechreuodd yn yr ysgol neu ddosbarth,
- cyfradd y cynnydd ac, yn arbennig, os oes yna arwyddion o gyflymiad.

**Cynorthwyydd addysgu (TA)** – oedolyn sydd yn helpu athro yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd maent yn cael eu galw'n cynorthwyydd cymorth dysgu (LSA). Yn y ddogfen hon, gwahaniaethir rhwng cynorthwywyr addysgu arbenigol sydd wedi'u hyfforddi a'u cyflogi i weithio yn benodol gyda phlant a phobl ifanc byddar, a chynorthwywyr addysgu a allent ddarparu cymorth cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth.

**Cyrhaeddiad** – safon gwaith y disgybl fel y dangosir trwy ganlyniadau prawf ac arholiad ac mewn gwersi. Mae fel arfer yn cael ei fesur yn erbyn safonau cenedlaethol ac mewn cymhariaeth â disgyblion eraill o'r un oedrannau.

**Dwyieithog/Dwyieithogrwydd** – defnyddio dwy iaith yn rhugl.

**Gweithiwr cymorth cyfathrebu (GCC)** – person sydd wedi'i hyfforddi i hyrwyddo cyfathrebu ar gyfer disgyblion byddar yn yr ystafell ddosbarth neu'r ddarlithfa. Maent yn dehongli'r cwricwlwm drwy arwyddo fel Iaith Arwyddion Prydan (BSL) neu Iaith Arwyddion Gwyddeleg (ISL), llefaru gyda chymorth neu ynganu gyda chymorth. Cyfeirir at GCC weithiau fel cynorthwywyr addysgu arbenigol.

**Hyfforddwr byddar** – oedolyn byddar sydd wedi'i hyfforddi i fod yn fodel rôl byddar ieithyddol a diwylliant.

**Iaith Arwyddion Gwyddeleg (ISL)** – yr iaith arwyddion a ddefnyddir yng Ngweriniaeth Iwerddon, yn ogystal â Gogledd Iwerddon, gan lawer o bobl fyddar.

**Iaith Arwyddion Prydain (BSL)** - yr iaith arwyddion a ddefnyddir yn y DU a'r iaith ddewisol gyntaf i nifer fawr o bobl fyddar.

**Llwyddiant** – mesur cyffredinol o lwyddiant disgybl yn ei dysgu academaidd. Cyfunir y term hwn cyrhaeddiad a chynnydd (gweler y diffiniadau isod).

**Plant a phobl ifanc –** defnyddir 'plentyn' i gynnwys blynyddoedd cynnar i gyd a phlant oedran cynradd, a 'pherson ifanc' i gynnwys pobl ifanc o oedran uwchradd hyd at oedolion ifanc.

**Rhiant** – hefyd yn cyfeirio at ofalwr y plentyn sydd â chyfrifoldeb rhiant.

**SA** – defnyddir trwy gydol y ddogfen i ddiffinio safonau ansawdd.

**Sgôr canradd** – mae hwn yn cynrychioli'r canran o blant neu bobl ifanc o oedran tebyg a fyddent ar lefel debyg mewn prawf neu asesiad safonol. Er enghraifft, os yw sgôr y plentyn neu berson ifanc yn y 16eg canradd, byddent wedi sgorio yn uwch na 15% o blant neu bobl ifanc yn y prawf hwnnw, ond yn is na 84%.

**Yn canolbwyntio ar y teulu** – dull sy’n canolbwyntio ar anghenion y teulu ac sydd yn hyrwyddo partneriaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y teulu a’r gwasanaeth.

Mae geirfa termau eraill sy’n gysylltiedig â byddardod ar gael ar ein gwefan: www.ndcs.org.uk/glossary.

**Ni yw'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yr elusen flaenllaw i blant byddar.**

**Llinell Gymorth Rhadffôn:**

0808 800 8880 (llais a thestun)
helpline@ndcs.org.uk

**www.ndcs.org.uk**

Cyhoeddir gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

© Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Awst 2020

37–45 Paul Street, Llundain EC2A 4LS

Ffôn: 020 7490 8656 (llais a thestun) Ffacs: 020 7251 5020

Gellir gofyn am y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fel ffeil destun.

Am gyfeirnodau'r adnodd neu i roi eich adborth, anfonwch e-bost at informationteam@ndcs.org.uk.

National Deaf Children's Society

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779. B0106 Awst 2020.